



# Gwers 27

## Y Doethion



Cyfres Stori Duw

### Mathew 2:1–20

#### **Nod:**

Sylweddoli bod dwy ffordd i ymateb i Iesu: ymateb fel Herod neu ymateb fel y Seryddion.

#### **Adnodau:**

Mathew 2:1–20

#### **Cefndir:**

Yma gwelwn ymateb pobl i enedigaeth Iesu, mae si yn mynd ar led fod Brenin wedi'i eni i'r Iddewon. Daeth y Seryddion o'r dwyrain pell gydag anrhegion drud iddo ac er mwyn ei addoli. Pan glywodd Herod y newyddion, yn wahanol i'r seryddion, roedd am ladd y plentyn er mwyn sicrhau ei frenhiniaeth.

Gweithgaredd i gyflwyno'r stori: holwch y bobl ifanc pa berson ifanc y byddent yn teithio milltiroedd i'w gyfarfod/chyfarfod. Beth fyddai eu hanrheg i'r person? Yna gofynnwch pam y person yma? Pam yr anrheg yma?

Esboniwch bod rhai yn ein darlenniad heddiw yn teithio milltiroedd i roi anrhegion i faban. Nid oedd y baban yma'n gyfoethog, doedd ei rieni ddim yn enwog. Pam felly yr holl drafeilio a chostau.

#### **Darllen yr adnodau:**

Mathew 2:1–20

Gofynnwch i'r bobl ifanc eistedd mewn cylch a darllen adnod yr un yn eu tro hyd ddiwedd y darn.

#### **Trafod yr hanes:**

Canolbwyntiwch yn gyntaf ar ymateb y Seryddion:

#### **Beth ydym yn ei wybod amdanynt?**

- (Ad 1) Roeddent yn dod o'r dwyrain
- (Ad 1) Mae'r teitl 'seryddion' yn awgrymu eu bod wedi cael addysg dda (yn wahanol i'r bugeiliaid!)
- (Ad 11) Roeddent yn gyfoethog, yn gallu rhoi aur, thus a myrr i'r baban Iesu.

#### **Sut oeddent wedi clywed am enedigaeth Iesu?**

- (Ad 2) Gwelsant seren newydd, a'i dilyn.

#### **Beth oedd eu hymateb?**

- (Ad 2) Gadael eu cartref a dilyn y seren
- (Ad 11) Addoli Iesu fel Duw

Yna edrychwch ar ymateb y Brenin Herod:

#### **Beth ydym yn gwybod amdano?**

- (Ad 1) Roedd yn frenin
- (ad 16) Roedd yn frenin cas iawn

#### **Sut oedd wedi clywed am Iesu?**

- (ad 2 a 3) Clywodd drwy'r Seryddion.



### **Beth oedd ei ymateb?**

- (ad 3) Aeth yn flin
- (ad 8 a 12) Dweud Celwydd
- (ad 16) Ceisio lladd Iesu

Mae'n annhebygol iawn y bydd unrhyw un yn y dosbarth yn debyg i Herod ond a ydynt wedi meddwl beth yw eu hymateb hwy i Iesu'n cael ei eni? Ydyn nhw eisiau ei addoli, fel y seryddion? Yn ei gasáu fel Herod? Neu, ddim yn gweld beth a wnelo hyn â'u bywydau hwy?

### **Gweithgareddau:**

Gweithgaredd 1.

Rhowch gopi o Atodiad 15 i bob aelod o'r dosbarth a gofyn iddynt wneud y chwilair. Gallwch roi fferins i'r sawl sy'n gorffen gyntaf.

Gweithgaredd 2.

Gellir actio'r stori, drwy benodi cymeriadau fel Herod, Seryddion, Joseff, Mair, Angel, seren. Os oes mwy o bobl ifanc gellid cael cyfarwyddwr ac un i fod yng ngofal sgript. Ceisiwch wneud yn siŵr eu bod yn glynu'n agos at y stori yn y Beibl, ond gadewch iddynt hwy arwain. Bydd hyn yn dod â'r stori yn fwy byw iddynt.

### **Amser i addoli:**

Roedd y seren yn dangos y ffordd at Iesu i'r Seryddion. Beth sydd gennym ni heddiw sydd fel seren (hynny yw, sy'n ein pwyntio at Iesu Grist)?

Mae Duw wedi rhoi'r Beibl a'r Ysbryd Glân i ni allu dysgu mwy am Iesu heddiw. Gofynnwch i un neu ddau o'r plant ddweud diolch i Dduw am y Beibl a'r Ysbryd Glân.